

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Adnau Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd

ASESIAD RHEOLIADAU CYNEFINOEDD ADRODDIAD ADENDWM

Rhagfyr 2016

ASESIAD RHEOLIADAU CYNEFINOEDD ADRODDIAD ADENDWM

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Newidiadau Materion sy'n Codi) Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd

<i>dyddiad:</i>	14 Rhagfyr 2016	
<i>paratowyd i:</i>	Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd	
<i>paratowyd gan:</i>	Cheryl Beattie Owen Jefferies	Enfusion
<i>sicrhau ansawdd:</i>	Cheryl Beattie	Enfusion

enfusion

environmental planning and management for sustainability



Treenwood House
Rowden Lane
Bradford on Avon
BA15 2AU

CYNNWYS

TUDALEN

1.0	CYFLWYNIAD	4
	Cefndir	4
	Pwrpas a Strwythur yr Adroddiad	4
2.0	SGRINIAD ARhC O NEWIDIADAU MATERION SY'N CODI	5-7
	Cyflwyniad	5
	Sgriniad ARhC o Newidiadau Materion sy'n Codi	5
3.0	CASGLIADAU	8
	ATODIADAU	
I	Sgriniad ARhC o Newidiadau Materion sy'n Codi	

1.0 CYFLWYNIAD

Cefndir

- 1.1 Mae Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLI ar y Cyd) ar gyfer ardaloedd awdurdod cynllunio lleol Ynys Môn a Gwynedd. Bydd y CDLI ar y Cyd yn nodi'r strategaeth ar gyfer datblygu a defnydd tir yn Ynys Môn a Gwynedd ar gyfer y cyfnod o 15 mlynedd rhwng 2011 a 2026. Bydd yn rhestru polisiau i weithredu'r strategaeth ac yn rhoi arweiniad a dynodiadau ar gyfer lleoli tai, cyfleoedd cyflogaeth, a chyfleusterau hamdden a chymunedol newydd.
- 1.2 Yn unol â gofynion Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd) [y Rheoliadau Cynefinoedd], mae'r Cyngorau, yn rhinwedd eu swyddogaethau fel yr awdurdodau cymwys, wedi bod yn cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o'r CDLI ar y Cyd. Hyd yma, mae'r broses ARhC ar gyfer y CDLI ar y Cyd wedi cynhyrchu'r adroddiadau isod:
- **Adroddiad Sgrinio ARhC Mai 2013** oedd yn cyd-fynd â'r Ddogfen Strategaeth a Ffafir ar yr ymgynghoriad cyhoeddus am 7 wythnos a ddaeth i ben ar 27 Mehefin 2013.
 - **Adroddiad ARhC Chwefror 2015** oedd yn cyd-fynd â'r Cynllun Adnau ar yr ymgynghoriad cyhoeddus am 7 wythnos a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015.
 - **Adroddiad ARhC Chwefror 2016** oedd yn cyd-fynd â'r CDLI ar y Cyd Adnau a Newidiadau â Ffocws ar y cyflwyniad i Lywodraeth Cymru
 - **Adroddiad Adendwm ARhC Gorffennaf 2016** a ystyriodd addasiadau arfaethedig i'r CDLI ar y Cyd ar ôl ystyried ymatebion i'r Newidiadau â Ffocws ynghyd â gwaith pellach a gwblhawyd mewn perthynas ag opsiynau safleoedd Sipsiwn a Theithwyr
 - **Adroddiad Adendwm ARhC Rhagfyr 2016 (yr adroddiad hwn)** sy'n ystyried Newidiadau Materion sy'n Codi yn ystod archwiliad o'r CDLI ar y Cyd

Diben a Strwythur yr Adroddiad

- 1.3 Diben yr Adroddiad Adendwm hwn yw amlinellu canfyddiadau gwaith pellach yr ARhC yn glir yng nghyswllt addasiadau i'r cynllun o ganlyniad i'r Newidiadau Materion sy'n Codi a adnabuwyd yn ystod archwiliad o'r CDLI ar y Cyd. Yn dilyn yr adran ragarweiniol hon, trefnir yr adroddiad yn ddwy adran bellach:
- **Adran 2** - yn amlinellu canfyddiadau asesiad sgrinio'r Newidiadau Materion sy'n Codi
 - **Adran 3** - yn crynhoi casgliadau gwaith pellach yr ARhC.

2.0 SGRINIAD ARhC O NEWIDIADAU MATERION SY'N CODI

Cyflwyniad

- 2.1 Yn ystod y broses archwilio, mae'r materion a'r pynciau sy'n codi wedi arwain at nifer o addasiadau'n cael eu cynnig ar gyfer y CDLI ar y Cyd. Mae'r Newidiadau Materion sy'n Codi (NMC) wedi cael eu hystyried (eu sgrinio) drwy'r broses ARhC i benderfynu a ydynt yn effeithio'n sylweddol ar ganfyddiadau gwaith blaenorol yr ARhC a gyflwynwyd yn yr Adroddiad ARhC (Chwefror 2016) a'r Adroddiad Adendwm ARhC (Gorffennaf 2016) ac os oes angen mwy o waith arfarnu.
- 2.2 Ar ôl adolygu'r Rhestr o NMC a gynhyrchwyd gan y Cynghorau¹, cynhyrchwyd tabl sgrinio i ystyried yr addasiadau arfaethedig arwyddocaol i'r ARhC, a gwelir canfyddiadau'r gwaith hwn yn Atodiad I yr Adroddiad hwn. Caiff y prif newidiadau eu crynhoi yn yr adran hon hefyd.

Sgrinio Newidiadau Materion sy'n Codi (NMC)

- 2.3 Mae gwaith adolygu a sgrinio'r Rhestr NMC wedi darganfod mai'r nod gyda'r mwyafrif o'r newidiadau yw darparu mwy o eglurhad, sicrhau cysondeb a chywirdeb, a sicrhau cydymffurfiaid â lefel uwch o ganllawiau polisi cynllunio (cenedlaethol). Ystyrir mai mân newidiadau ydynt ac nad ydynt yn effeithio'n sylweddol ar ganfyddiadau gwaith yr ARhC blaenorol.
- 2.4 Cyflwynwyd nifer o bolisiau newydd drwy'r newidiadau ac fe'u hystyrir yn y Tabl Sgrinio ARhC (Atodiad I). Ceir crynodeb o'r rhain isod.
- **Ffiniau Datblygu:** mae'r polisi newydd yn cynnig ffocws ar gyfer datblygu mewn ardaloedd trefol presennol, gwneud y mwyaf o hygyrchedd a lleihau'r tebygolrwydd o ddatblygiadau ar eu pennau eu hunain yng nghefn gwlad agored. Drwy wneud y mwyaf o hygyrchedd i wasanaethau, cyfleusterau a chyfleoedd cyflogaeth presennol, gall datblygiad gyfrannu at leihau dibyniaeth ar gerbydau preifat a gwella ansawdd aer yn ardaloedd y Cynllun. Bydd hyn yn anuniongyrchol yn cefnogi ansawdd aer mewn safleoedd dynodedig Ewropeaidd ac o'u hamgylch.
 - **Ardaloedd Chwilio Posib ar gyfer Ffermydd Solar PV:** Mae'r polisi newydd yn ceisio cyfeirio datblygiadau Ffermydd Solar PV tuag at yr ardaloedd chwilio posibil a nodwyd ar y Map Cynigion. Ystyriwyd y lleoliadau hyn drwy dystiolaeth gefnogol berthnasol fel y lleoliadau mwyaf addas. Mae'r polisi yn cynnwys camau lliniaru i sicrhau 'na fydd y cynnig yn arwain at niwed amlwg i fioamrywiaeth, gan gynnwys safleoedd a rhywogaethau wedi'u gwarchod yn statudol', a bod 'Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) yn cael ei ddarparu i ddangos bod unrhyw effeithiau negyddol posibil a gyfyd yn ystod y cyfnodau adeiladu a digomisiynu yn cael eu hosgoi'. Yn ogystal â'r camau lliniaru a ddarperir gan bolisiau CDLI eraill, gan gynnwys Polisi Strategol PS16 (Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol) sy'n ceisio rheoli datblygiadau i warchod yr

¹ Rhestr o NMC ar gael yn: <https://www.gwynedd.llyw.cymru/> neu <http://www.anglesey.gov.uk/>

amgylchedd naturiol, a'i wella os yw hynny'n bosib, drwy ddiogelu safleoedd Ewropeaidd a bioamrywiaeth ehangach, bydd yn parhau i helpu sicrhau na fydd unrhyw effeithiau sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd (naill ai ar eu pennau eu hunain neu ar y cyd).

- **Polisi PS 9A ar Lety Dros Dro ar Raddfa Fawr ar gyfer Gweithwyr Adeiladu:** mae'r polisi newydd yn amlinellu'r meini prawf ar gyfer datblygu llety dros dro i weithwyr adeiladu sy'n gysylltiedig â datblygiad Wylfa Newydd. Mae'r meini prawf yn ceisio cyfeirio'r math hwn o ddatblygiad tuag at ganolfannau presennol gyda chysylltiadau trafndiaeth da a lefelau hygyrchedd uchel, ac mae angen camau lliniaru arno i osgoi effeithiau negyddol a gyfyd o ganlyniad i hygyrchedd isel. Yn ogystal â'r camau lliniaru a ddarperir gan bolisiau CDLI eraill, gan gynnwys Polisi Strategol PS16 (Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol) sy'n ceisio rheoli datblygiadau i warchod yr amgylchedd naturiol, a'i wella os yw hynny'n bosib, drwy ddiogelu safleoedd Ewropeaidd a bioamrywiaeth ehangach, bydd yn parhau i helpu sicrhau na fydd unrhyw effeithiau sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd (naill ai ar eu pennau eu hunain neu ar y cyd).
- **Polisi PS 9B ar Ganolfannau Logisteg Wylfa Newydd:** mae'r polisi newydd yn amlinellu'r meini prawf ar gyfer datblygu canolfannau logisteg sy'n gysylltiedig â datblygiad Wylfa Newydd. Mae'r meini prawf yn ceisio cyfeirio'r math hwn o ddatblygiad tuag at safleoedd cyflogaeth a ddiogelwyd neu a ddynodwyd (a ystyriwyd eisoes drwy'r ARhC) neu o fewn ffiniau datblygu canolfannau presennol a sicrhau cysylltiadau trafndiaeth cynaliadwy da. Yn ogystal â'r camau lliniaru a ddarperir gan bolisiau CDLI eraill, gan gynnwys Polisi Strategol PS16 (Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol) sy'n ceisio rheoli datblygiadau i warchod yr amgylchedd naturiol, a'i wella os yw hynny'n bosib, drwy ddiogelu safleoedd Ewropeaidd a bioamrywiaeth ehangach, bydd yn parhau i helpu i sicrhau na fydd unrhyw effeithiau sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd (naill ai ar eu pennau eu hunain neu ar y cyd).
- **Polisi PS 9C ar Gyfleusterau Parcio a Theithio sy'n Gysylltiedig â Wylfa Newydd:** mae'r polisi newydd yn amlinellu'r meini prawf ar gyfer datblygu cyfleusterau parcio a theithio sy'n gysylltiedig â datblygiad Wylfa Newydd. Bydd y polisi'n cyfrannu at gynyddu mynediad cynaliadwy at y datblygiad hwn yn ystod cyfnodau adeiladu a gweithredu, ac yn isafu teithio annibynnol i'r safle mewn cerbydau preifat, ac felly'n anuniongyrchol yn cefnogi ansawdd aer gwell. Mae'r polisi hwn yn ceisio gwneud cyfleusterau parcio a theithio'n hygyrch drwy ddulliau teithio cynaliadwy megis cerdded a beicio. Mae'r polisi'n gwella camau lliniaru ar gyfer yr effeithiau negyddol sy'n gysylltiedig â datblygiad Wylfa Newydd ac, yn ogystal â'r camau lliniaru a ddarperir gan bolisiau CDLI eraill gan gynnwys Polisi Strategol PS16 (Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol) sy'n ceisio rheoli datblygiadau i warchod yr amgylchedd naturiol, a'i wella os yw hynny'n bosib, drwy ddiogelu safleoedd Ewropeaidd a bioamrywiaeth ehangach, bydd yn parhau i helpu sicrhau na fydd unrhyw effeithiau sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd (naill ai ar eu pennau eu hunain neu ar y cyd).
- **Polisi CYF1A ar ddatblygiad yn Adwy'r Hafan Pwllheli:** mae'r polisi newydd yn ceisio cyfyngu effeithiau negyddol posib datblygiad, a'u lliniaru ble bo'r angen, ar y perygl o lifogydd, ac felly'n cryfhau camau lliniaru polisi. Mae'r

newidiadau'n annhebygol o effeithio'n sylweddol ar ganfyddiadau'r ARhC blaenorol.

- 2.5 Ar y cyfan, ni ystyrir bod y mân newidiadau, cryfhau polisi, a'r polisiâu ychwanegol a gynigir drwy'r NMC yn effeithio'n sylweddol ar ganfyddiadau'r ARhC blaenorol.

3.0 CASGLIADAU

- 3.1 Mae'r Newidiadau Materion sy'n Codi (NMC) a gynigiwyd yn ystod yr archwiliad o'r CDLI ar y Cyd wedi cael eu sgrinio drwy'r broses ARhC i benderfynu a ydynt yn effeithio'n sylweddol ar ganfyddiadau gwaith yr ARhC blaenorol a gyflwynwyd yn yr Adroddiad ARhC (Chwefror 2016) a'r Adroddiad Adendwm ARhC (Gorffennaf 2016). Cesglir nad yw'r newidiadau'n effeithio'n sylweddol ar ganfyddiadau gwaith yr ARhC blaenorol gan eu bod yn ceisio rhoi mwy o eglurhad, neu sicrhau cysondeb a chywirdeb, ynghyd â chydymffurfiaid â lefel uwch o ganllawiau polisi cynllunio (cenedlaethol). Hefyd, ni ystyrir bod cryfhau polisi a'r polisiâu ychwanegol a gynigir drwy'r NMC yn effeithio'n sylweddol ar ganfyddiadau'r ARhC blaenorol.

Atodiad I: Tabl Sgrinio Newidiadau Materion sy'n Codi

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r Newidiadau Materion sy'n Codi (NMC) y'u hystyrir yn berthnasol i'r broses ARhC. Nid yw'r tabl isod yn manylu ar bob NMC gan fod y mwyafrif o'r rhain yn fân newidiadau testun er mwyn gwella eglurder, cysondeb a chywirdeb, yn ogystal â sicrhau cydymffurfiaid â lefelau uwch canllawiau polisi cynllunio (cenedlaethol). Mae'r rhestr lawn o NMC ar gael ar wefan y Cyngor yn <https://www.gwynedd.llyw.cymru/> or <http://www.anglesey.gov.uk/>.

Rhif Polisi:	Crynodeb o'r Newidiadau, Dileadau ac Ychwanegiadau	Sgrinio - a yw'r newidiadau, dileadau a'r ychwanegiadau yn cael effaith sylweddol ar ganfyddiadau'r Adroddiad ARhC (Chwefror 2016) neu'r Adroddiad Adendwm ARhC (Gorffennaf 2016)?
ISA 3	Mae cyfleusterau addysg a hyfforddiant newydd nad ydynt yn gysylltiedig â chyfleusterau presennol wedi'u cyfeirio tuag at safleoedd cyflogaeth a ddiogelwyd neu a ddynodwyd, o fewn neu'n agos at ffiniau datblygu, neu mewn amgylchiadau eithriadol yn agos at safleoedd busnes presennol neu a ganiatawyd gyda chysylltiadau trafnidiaeth da.	Ni fydd cyflwyno cyfleusterau addysg a hyfforddiant newydd ar safleoedd a ddiogelwyd neu a ddynodwyd yn effeithio'n sylweddol ar ganfyddiadau'r ARhC blaenorol oherwydd bod y safleoedd hyn eisoes wedi'u hasesu yn y broses ARhC. Hyd yn oed mewn amgylchiadau eithriadol, bydd sicrhau bod datblygiad yn cael ei leoli mewn ardaloedd gyda chysylltiadau trafnidiaeth da yn helpu lleihau'r ddibyniaeth ar gerbydau preifat a'r effeithiau ansawdd aer negyddol dilynol.
Polisi newydd	Polisi newydd yn nodi Ffiniau Datblygu yn y canolfannau a'r pentrefi fel y lleoliadau a ffafrir ar gyfer datblygiadau newydd.	Mae'r polisi newydd yn ceisio cyfeirio datblygiad at ganolfannau a phentrefi presennol fydd yn lleihau'r tebygolrwydd o ddatblygiadau ar eu pennau eu hunain yng nghefn gwlad agored. Mae hyn yn debygol o gefnogi dibyniaeth lai ar gerbydau preifat ac felly'n anuniongyrchol yn cefnogi llai o allyriadau ac effeithiau negyddol ar ansawdd aer. Mae'r newidiadau'n gwella camau lliniaru polisi ac fe'u hystyrir yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar ganfyddiadau'r ARhC blaenorol.
Polisi Newydd	Polisi newydd yn nodi ardaloedd chwilio posib ar gyfer Ffermydd	Mae'r polisi newydd yn ceisio cyfeirio datblygiadau Ffermydd Solar PV tuag at yr ardaloedd chwilio posib a nodwyd ar y Map Cynigion. Ystyriwyd y lleoliadau hyn

	Solar PV	<p>drwy dystiolaeth gefnogol berthnasol fel y lleoliadau mwyaf addas. Mae'r polisi yn cynnwys camau lliniaru i sicrhau 'na fydd y cynnig yn arwain at niwed amlwg i fioamrywiaeth gan gynnwys safleoedd a rhywogaethau wedi'u gwarchod yn statudol', a bod 'Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) yn cael ei ddarparu i ddangos bod unrhyw effeithiau negyddol posib a gyfyd yn ystod y cyfnodau adeiladu a digomisiynu yn cael eu hosgoi'. Yn ogystal â'r camau lliniaru a ddarperir gan bolisiau CDLI eraill, gan gynnwys Polisi Strategol PS16 (Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol) - sy'n ceisio rheoli datblygiadau i warchod yr amgylchedd naturiol, a'i wella os yw hynny'n bosib, drwy ddiogelu safleoedd Ewropeaidd a bioamrywiaeth ehangach - byddant yn parhau i helpu sicrhau na fydd unrhyw effeithiau sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd (naill ai ar eu pennau eu hunain neu ar y cyd).</p> <p>Felly, ni fydd y polisi newydd yn cael effaith sylweddol ar ganfyddiadau sgriniad yr ARhC sy'n parhau'n berthnasol a dilys.</p>
PS8	Tynnu'r angen am lefel prosiect ARhC mewn Prosiectau Isadeiledd sydd o Bwysigrwydd Cenedlaethol (Nhsips)	Cyflwynir Prosiectau Isadeiledd sydd o Bwysigrwydd Cenedlaethol (Nhsips) i'r Arolygiaeth Gynllunio ac maent yn dal yn amodol ar broses archwilio a'r gyfraith gyffredinol berthnasol, gan gynnwys Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd). Felly, ystyrir bod tynnu'r meini prawf hyn ar gyfer lefel prosiect ARhC mewn polisi lleol yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar ganfyddiadau'r ARhC blaenorol.
PS 9	<p>Newidiadau i bolisi PS9 ar Wylfa Newydd a Datblygiad Cysylltiedig Ychwanegu maen prawf 4; bod gwaith paratoi yn angenrheidiol i ddarparu'r camau lliniaru priodol, rhaid cael strategaeth ar gyfer gwaith cychwynnol er mwyn galluogi'r safleoedd i gael eu hadfer i safon dderbyniol.</p> <p>Ychwanegu maen prawf 7; cyfeirio at bolisiau newydd PS9A i</p>	Mae ychwanegu maen prawf 4 yn cryfhau'r camau lliniaru a ddarperir gan y polisi gan leihau'r tebygolrwydd o effeithiau negyddol. Ni ystyrir bod ychwanegu maen prawf 4 yn debygol o gael effaith sylweddol ar ganfyddiadau'r ARhC blaenorol.

	<p>PS9C</p> <p>Diddymu maen prawf 9; yr angen am lefel prosiect ARhC</p> <p>Newidiadau i faen prawf 10; yn gofyn am ymgysylltu'n fuan gyda'r cyngor</p> <p>Ychwanegu maen prawf 13; yn gofyn am isadeiledd trafndiaeth priodol ac am asesiad trafndiaeth</p> <p>Ychwanegu maen prawf 16; gosod y meini prawf ar gyfer datblygiadau dros dro</p>	<p>Asesir polisiâu newydd PS 9A i PS 9C fesul un isod</p> <p>Pennir yr angen am ARhC o fewn Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd) ac felly, ystyrir bod diddymu'r maen prawf hwn ar gyfer lefel prosiect ARhC mewn polisi lleol yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar ganfyddiadau'r ARhC blaenorol.</p> <p>Mae ymgysylltu'n fuan gyda Chynghorau ynghylch strategaethau datblygu yn debygol o leihau'r posibilrwydd o effeithiau negyddol ac uchafu'r posibilrwydd o effeithiau cadarnhaol. Ni ystyrir bod y newidiadau'n debygol o effeithio ar ganfyddiadau'r ARhC blaenorol.</p> <p>Mae ychwanegu maen prawf 13 yn gwella camau lliniaru'r polisi parthed yr effeithiau negyddol posib ar draffig a thrafnidiaeth sy'n codi o ddatblygiad newydd. Mae'r newidiadau'n annhebygol o effeithio'n sylweddol ar ganfyddiadau'r ARhC blaenorol.</p> <p>Mae ychwanegu maen prawf 16 yn golygu bod mwy o eglurder mewn perthynas â'r disgwyliadau ar gyfer datblygiadau dros dro. Ni fydd y newidiadau'n effeithio'n sylweddol ar ganfyddiadau'r ARhC blaenorol.</p>
<p>Polisi newydd PS 9A</p>	<p>Polisi newydd ar Lety Dros Dro Tebyg i Gampws ar Raddfa Fawr ar gyfer Gweithwyr Adeiladu</p>	<p>Mae'r polisi newydd yn amlinellu'r meini prawf ar gyfer datblygu llety dros dro i weithwyr adeiladu sy'n gysylltiedig â datblygiad Wylfa Newydd. Mae'r meini prawf yn ceisio cyfeirio'r math hwn o ddatblygiad tuag at ganolfannau presennol gyda chysylltiadau trafndiaeth da a lefelau hygyrchedd uchel, ac mae angen camau lliniaru arno i osgoi effeithiau negyddol a gyfyd o ganlyniad i hygyrchedd isel. Yn ogystal â'r camau lliniaru a ddarperir gan bolisiâu CDLI eraill, gan gynnwys Polisi Strategol PS16 (Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol) - sy'n ceisio rheoli datblygiadau er mwyn gwarchod yr amgylchedd naturiol, a'i wella os yw hynny'n bosib, drwy ddiogelu safleoedd Ewropeaidd a bioamrywiaeth ehangach - bydd yn parhau i helpu sicrhau na fydd unrhyw effeithiau sylweddol ar safleoedd</p>

		<p>Ewropeaidd (naill ai ar eu pennau eu hunain neu ar y cyd).</p> <p>Felly, ni fydd y polisi newydd yn cael effaith sylweddol ar ganfyddiadau sgriniad yr ARhC sy'n parhau'n berthnasol a dilys.</p>
Polisi newydd PS 9B	Polisi newydd ar Ganolfannau Logisteg Wylfa Newydd	<p>Mae'r polisi newydd yn amlinellu'r meini prawf ar gyfer datblygu canolfannau logisteg sy'n gysylltiedig â datblygiad Wylfa Newydd. Mae'r meini prawf yn ceisio cyfeirio'r math hwn o ddatblygiad tuag at safleoedd cyflogaeth a ddiogelwyd neu a ddynodwyd (a ystyriwyd eisoes drwy'r ARhC) neu o fewn ffiniau datblygu canolfannau presennol a sicrhau cysylltiadau trafniadaeth cynaliadwy da. Yn ogystal â'r camau lliniaru a ddarperir gan bolisiâu CDLI eraill, gan gynnwys Polisi Strategol PS16 (Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol) - sy'n ceisio rheoli datblygiadau er mwyn gwarchod yr amgylchedd naturiol, a'i wella os yw hynny'n bosib, drwy ddiogelu safleoedd Ewropeaidd a bioamrywiaeth ehangach - byddant yn parhau i helpu sicrhau na fydd unrhyw effeithiau sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd (naill ai ar eu pennau eu hunain neu ar y cyd).</p> <p>Felly, ni fydd y polisi newydd yn cael effaith sylweddol ar ganfyddiadau sgriniad yr ARhC sy'n parhau'n berthnasol a dilys.</p>
Polisi newydd PS 9C	Polisi newydd ar Ddatblygiad Cysylltiedig Wylfa Newydd - Cyfleuster Parcio a Theithio	<p>Mae'r polisi newydd yn amlinellu'r meini prawf ar gyfer datblygu cyfleusterau parcio a theithio sy'n gysylltiedig â datblygiad Wylfa Newydd. Bydd y polisi'n cyfrannu at gynyddu mynediad cynaliadwy at y datblygiad hwn yn ystod cyfnodau adeiladu a gweithredu, ac yn isafu teithio annibynnol i'r safle mewn cerbydau preifat, ac felly'n anuniongyrchol yn cefnogi ansawdd aer gwell. Mae'r polisi hwn yn ceisio gwneud cyfleusterau parcio a theithio'n hygyrch drwy ddulliau teithio cynaliadwy megis cerdded a beicio. Mae'r polisi'n gwella camau lliniaru ar gyfer yr effeithiau negyddol sy'n gysylltiedig â datblygiad Wylfa Newydd ac, yn ogystal â'r camau lliniaru a ddarperir gan bolisiâu CDLI eraill, gan gynnwys Polisi Strategol PS16 (Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol) sy'n ceisio rheoli datblygiadau i warchod yr amgylchedd naturiol a'i wella os yw hynny'n bosib drwy ddiogelu safleoedd Ewropeaidd a bioamrywiaeth ehangach, bydd yn parhau i helpu sicrhau na fydd unrhyw effeithiau sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd (naill ai ar eu pennau eu hunain neu ar y cyd). Felly, ni fydd y polisi newydd yn cael effaith sylweddol ar ganfyddiadau sgriniad yr ARhC sy'n parhau'n berthnasol a dilys.</p>

PS 10	<p>Cynnydd yn nifer y tir cyflogaeth presennol a ddiogelwyd o 638.7ha i 643.8ha – sy'n cynnwys ychwanegu Stad Ddiwydiannol Gaerwen, Gaerwen</p> <p>Lleihad yng nghyfanswm y tir cyflogaeth newydd a ddynodwyd yn y cynllun o 60ha i 55.1ha</p>	<p>Mae Stad Ddiwydiannol Gaerwen yn ardal gyflogaeth bresennol, ac ni ystyrir bod diogelu'r safle yn debygol o gael effaith sylweddol ar ganfyddiadau'r ARhC blaenorol. Mae potensial, trwy leihau cyfanswm y tir cyflogaeth a ddynodwyd, i leihau ehangder yr effeithiau negyddol a adnabuwyd.</p>
Polisi newydd CYF1A	<p>Polisi newydd yn cyfyngu datblygiad yn Adwy'r Hafan Pwllheli fydd yn cynyddu'r tebygolrwydd o berygl llifogydd, ac yn gofyn am gamau lliniaru ar gyfer y perygl o lifogydd.</p>	<p>Mae'r polisi newydd yn ceisio cyfyngu effeithiau negyddol posib datblygiad, a'u lliniaru ble bo'r angen, ar y perygl o lifogydd, ac felly'n cryfhau camau lliniaru polisi. Mae'r newidiadau'n annhebygol o effeithio'n sylweddol ar ganfyddiadau'r ARhC blaenorol.</p>
Polisi TAI X	<p>Polisi ar gyflwyno datblygiad fesul cam wedi'i ddileu.</p>	<p>Mae camau lliniaru ar gyfer cyflwyno datblygiad fesul cam (ble bo'r angen) yn dal yn parhau ar lefel prosiect (drwy amodau cynllunio, er enghraifft). Nid yw lefel a dosbarthiad cyffredinol datblygiad wedi newid, ac mae tynnu'r polisi hwn yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar ganfyddiadau'r ARhC blaenorol.</p>
Polisi TAI 5	<p>Cynnwys dynodiad tai ym Miwmares (Casita) ar gyfer 35 o unedau tai newydd</p>	<p>Mae'r safle hwn eisoes wedi'i asesu yn y broses ARhC - gweler Adroddiad ARhC Chwefror 2016, Atodiad III tudalen 34.</p>
Polisi PS 14	<p>Targed ar gyfer tai fforddiadwy wedi cynyddu o 1400 i 1572 o unedau tai newydd. Mae hyn yn cynnwys 100% o dai newydd a grëwyd drwy drosi adeiladau traddodiadol yng nghefn gwlad agored.</p>	<p>Mae tai fforddiadwy yn elfen o'r targed darparu tai cyffredinol nad sydd wedi newid, ac fe'i haseswyd fel rhan o'r broses ARhC. Felly, mae'r cynnydd yn y targed tai fforddiadwy yn annhebygol o effeithio'n sylweddol ar ganfyddiadau'r ARhC blaenorol.</p>
GWA3	<p>"Lefel isel ac isel iawn" wedi'i ddileu; defnyddio'r gair "rheoli" yn</p>	<p>Mae'r newidiadau, dileadau a'r ychwanegiadau hyn i Bolisi GWA3 yn rhoi eglurder, cysondeb a gwell sicrwydd bod y Polisi'n cyd-fynd â strategaethau a pholisïau</p>

<p>lle "<i>trin</i>" ar gyfer gwastraff ymbelydrol; ychwanegu "<i>polisiâu</i>" cenedlaethol ar gyfer rheoli gwastraff ymbelydrol;</p> <p><i>newid o "...ar y safle neu mewn lleoliadau priodol tu allan i'r prif safle niwclear..." i "...yn y lleoliad a gynigir";</i></p> <p>ychwanegu maen prawf Polisi sy'n gofyn bod unrhyw gynnig yn cael ei gefnogi gan Asesiad Cynllunio Gwastraff (fel y'i diffinnir gan NCT21: Gwastraff).</p>	<p>cenedlaethol ar gyfer rheoli gwastraff ymbelydrol.</p> <p>Mae Maen Prawf Rhif 3 GWA3 yn dal i ofyn am leihau effeithiau amgylcheddol andwyol ac mae Maen Prawf Rhif 5 yn gofyn bod unrhyw gynnig yn cael ei gefnogi gan ACG. Mae'r gofynion hyn, yn ogystal â'r camau lliniaru a ddarperir gan bolisiâu CDLI eraill, gan gynnwys Polisi Strategol PS16 (Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol) sy'n ceisio rheoli datblygiadau i warchod yr amgylchedd naturiol a'i wella os yw hynny'n bosib drwy ddiogelu safleoedd Ewropeaidd a bioamrywiaeth ehangach, yn parhau i helpu sicrhau na fydd unrhyw effeithiau sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd (naill ai ar eu pennau eu hunain neu ar y cyd).</p> <p>Felly, ni fydd y newidiadau arfaethedig i Bolisi GWA3 yn cael effaith sylweddol ar ganfyddiadau sgriniad yr ARhC sy'n parhau'n berthnasol a dilys.</p>
-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------